Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ilan Williams
Ysgol Gynradd Edern
Ffordd y Rhos
Edern
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8YW

28/04/2025

Annwyl Ilan Williams

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Edern yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Ionawr 2020.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm cyfle i:
- Ymweld â dosbarthiadau
- Siarad â disgyblion
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- Craffu ar waith disgyblion
- Craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ac i safon sy'n briodol i'w gallu ar draws y cwricwlwm.

- Ers yr arolygiad craidd, mae'r staff wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol. Yn dilyn sesiynau dysgu cysyniadau mathemategol, mae'r staff yn cyd-gynllunio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'r medrau rhifedd o fewn eu themâu tymhorol.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd bwriadus i'r staff gydweithio ag ysgolion y dalgylch er mwyn sicrhau dilyniant clir ym medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gyda staff y clwstwr i fapio'r medrau ar draws yr hyfedreddau rhifedd. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth a gynigir i'r disgyblion yn gadarn, gan eu galluogi i gymhwyso ystod eang o fedrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Mae gan y pennaeth strategaeth gadarn er mwyn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion weithio gydag ystod o asiantaethau a busnesau yn y gymuned, sy'n effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o fentergarwch. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyfoethog i greu busnesau bach er mwyn gwerthu nwyddau i'r gymuned. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o arian a chysyniadau pwysig, gan gynnwys elw a cholled.

### Sicrhau bod cyfleoedd rheoliadd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain trwy benderfynu ar beth a sut maent am ddysgu.

- Mae'r staff yn cydweithio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod disgyblion a'u rhieni yn cael eu cynnwys yn llawn wrth benderfynu ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu o fewn y themâu tymhorol. Mae'r disgyblion yn cydweithio ar ddechrau'r themâu newydd er mwyn trafod yr hyn maent eisoes yn ei wybod a'r hyn yr hoffent ei ddysgu yn ystod y tymor. Ar ddiwedd y thema, maent yn gwerthuso'r hyn maent wedi'i ddysgu a'r medrau maent wedi'u datblygu.
- O fewn eu gweithgareddau dysgu, mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd bwriadus i benderfynu ar lefel yr her sy'n briodol i'w gallu. Maent yn trafod cynnwys y gweithgareddau dysgu ac yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi ei gilydd pan fo angen. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i drafod a phenderfynu ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer y tasgau dysgu. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n gynyddol annibynnol ac yn llai dibynnol ar fewnbwn oedolion.

- Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau ar sut i gyflwyno eu gwaith. Mae'r athrawon yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r disgyblion ac yn caniatáu iddynt ddewis y dull gorau i'w chyflwyno i'w cynulleidfa.
- Mae'r disgyblion sy'n rhan o'r amrywiol bwyllgorau yn chwarae rhan flaenllaw wrth wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n cael ei ddysgu ac am fywyd a gwaith ehangach yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyngor eco wedi bod yn weithgar wrth ddewis gweithgareddau dysgu ar gyfer y diwrnod eco, gan gynnwys cynnal cystadleuaeth creu posteri arbed ynni ar draws yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612046](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612046)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol